



## Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

### Ein cyllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur).

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/Targed
<b>A</b>	<b>Cefnogi teuluoedd</b>	
1	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn darparu'r gofynion allweddol o ran gofal plant a chwarae gan symud tuag at 30 awr o addysg a gofal am ddim i rieni sy'n gweithio. <i>MF5-41</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen <b>Dechrau'n Deg</b> , gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar i deuluoedd dan anfantais sydd â phlant (0-3 oed) ac sy'n byw mewn cymunedau amddifad penodol, gan sicrhau bod cymorth amlasiantaeth da yn cael ei roi i deuluoedd ar draws y sbectrwm angen drwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol. <i>MF5-82 (Cam gweithredu hefyd yn Amcan 2 a 5)</i>	Mawrth 2020
3	Byddwn yn parhau i weithio tuag at roi sylw i'r bylchau mewn gofal plant a nodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant mwyaf diweddar (2017-2022), er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran digonolrwydd gofal plant, a bod rhieni/gofalwyr lleol yn derbyn cymorth i gael hyd i gydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gweithio a gofalu. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2020
4	Byddwn yn parhau i weithio tuag at fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mwyaf diweddar (2016-2019) er mwyn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lleol fynediad i gyfleoedd a phrofiadau chwarae amrywiol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio tiroedd ysgol, y tu allan i oriau addysgu. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 2 a 5)</i>	Mawrth 2020
5	Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy sefydlu a datblygu'r model systematig o weithio (mewn Podiau), gan weithio'n gydlynol gyda <i>Signs of Safety</i> , yn cynnwys y Gwasanaethau Anabledd a Maethu.	Mawrth 2020
6	Byddwn yn gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) sydd wedi'i hailgomisiynu, gan gynnwys newidiadau mewn ymateb i ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, a chan ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dan anfantais, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. Defnyddio'r cyfle i gael Cyllid Hyblyg yn unol â'r Grant Plant a Chymunedau. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2020
7	Byddwn yn gweithredu trothwy rhanbarthol a threfniadau amddiffyn plant amlasiantaethol, ac yn sicrhau ymyrraeth gynnar, a defnydd o wasanaethau ataliol (gan gynnwys y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd) i leihau'r angen am gyfranogiad statudol.	Mawrth 2020

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
8	Byddwn yn parhau i ymestyn a mireinio'r dull Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Byddwn yn parhau i weithredu'r ddogfen drothwy i helpu i roi gwybodaeth i deuluoedd ac asiantaethau eraill, ac i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Yn benodol, byddwn yn defnyddio'n hadnoddau i ddatblygu'r Tîm o Amgylch y Teulu mewn gwaith ysgolion. <i>(Cam gweithredu wedi'i gynnwys yn Amcan 5)</i>	Mawrth 2020
9	Byddwn yn sicrhau bod ein tîm camddefnyddio sylweddau arbenigol yn diwallu anghenion y gwasanaethau plant ac oedolion drwy ddarparu cyngor, cymorth a mewnbwn uniongyrchol i dimau rheng flaen. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 9)</i>	Mawrth 2020
10	Yn dilyn yr adolygiad a'r ymgynghoriad ynghylch ein gwasanaeth anabledd, rydym yn gweithio tuag at fodel gydol oes ar gyfer anabledd er mwyn sicrhau pontio a llwybrau di-dor rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn. <i>(Cam gweithredu hefyd wedi'i gynnwys yn Amcan 9)</i>	Mawrth 2020
11	Byddwn yn datblygu gweledigaeth a rennir ar draws y rhanbarth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth gyda phartneriaid mewn gwasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.	Mawrth 2020
12	Byddwn yn gweithredu ac yn monitro'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol ddiwygiedig drwy Banel Rhianta Corfforaethol, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei rôl Rhianta Corfforaethol a bod ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn cael cyfle i wireddu eu potensial llawn. <b>MF5-40</b>	Mawrth 2019
13	Byddwn yn cynyddu % presenoldeb plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. (9.1.8.1) <i>(Canlyniad 2018/19 - 79.2%)</i>	80%
14	Byddwn yn cadw i leiafswm ganran absenoldeb heb awdurdod plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. (9.1.8.8) <i>(Canlyniad 2018/19 - 2.59%)</i>	2.75%
15	Ein nod yw cadw i leiafswm ganran y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau pontio. (SCC/32) <i>(Canlyniad 2018/19 - 0.9%)</i>	3.1%
16	Ein nod yw lleihau % y plant mewn gofal yr oedd yn rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy (PAM/029) <i>(Canlyniad 2018/19 - 10.4%)</i>	9.3%
17	Byddwn yn cynyddu canran yr asesiadau plentyn a gwblheir ar amser (PAM/028) <i>(Canlyniad 2018/19 - 87.2%)</i>	88%
18	Byddwn yn sicrhau bod plant a gefnogir yn dal i fyw gyda'u teulu lle bynnag y bo'n bosibl (SCC/25) <i>(Canlyniad 2018/19 - 82.3%)</i>	81.2%
19	Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn dychwelyd adref o ofal mor gyflym a mor ddiogel â phosibl (SCC/26) <i>(Canlyniad 2018/19 - 19.8%)</i>	20.1%
20	Ein nod yw cadw % yr achosion o ailgofrestru plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol (CPR) i leiafswm. (SCC/27) <i>(Canlyniad 2018/19 - 6.3%)</i>	5.6%

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
21	Byddwn yn lleihau'r cyfartaledd amser yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn <i>(scc/28)</i> <span style="float: right;"><i>(Canlyniad 2018/19 – 262.4 diwrnod)</i></span>	250.1 diwrnod
<b>B</b>	<b>Anghenion Dysgu Ychwanegol</b>	
1	Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn cydymffurfio â gofynion y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n anelu at drawsnewid disgwiliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc drwy ddatblygu system unedig i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol rhwng 0 a 25 oed. <i>MF5-39</i>	Mawrth 2020
2	Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymagweddau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Unigolion i nodi angen, cyflawni darpariaeth dysgu ychwanegol bersonol o safon a darparu ymatebion integredig cyfannol drwy waith amlasiantaeth.	Mawrth 2020
3	Byddwn yn cefnogi, monitro, gwerthuso a dathlu cyflawniadau ar gerrig milltir allweddol o ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan ddarparu adborth i ysgolion i gefnogi hyder ar gyfer arloesi.	Mawrth 2020
4	Byddwn yn adolygu data'r gweithlu mewn perthynas ag ystod o wasanaethau cymorth, e.e. Seicoleg Addysg a Phlentyn, cymorth Nam ar y Synhwyrac ac Athrawon Ymgynghorol, i sicrhau cymorth ar gyfer nifer fach o achosion o anghenion cymhleth iawn a nifer fawr o achosion o anghenion sy'n isel eu cymhlethdod.	Mawrth 2020

### Mesurau Llwyddiant

Plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy *(PAM/029)*